# COFRESTR BUDDIANNAU BUSNES (RP1/2) - Nodiadau Canllaw

**Datgan Buddiant**

1 Mae'n ofynnol ar i gorff llywodraethol feddu ar gofrestr o fuddiannau busnes ar gyfer llywodraethwyr a staff ac mae'n rhaid iddi fod ar gael i'w harchwilio. Er enghraifft, dylai llywodraethwyr a staff ddatgan unrhyw gysylltiadau sydd ganddynt â chwmnïau lleol y gall yr ysgol ddymuno pwrcasu rhyw nwyddau neu wasanaethau oddi wrthynt. Gall hwn helpu dangos nad yw llywodraethwyr a staff yn elwa o'r penderfyniadau a wnânt.

2 Mae cyfrifoldeb ar bawb a gyflogir gan y Cyngor neu gan ysgolion, a phob aelod o'r Cyngor neu Gorff Llywodraethu Ysgol, i ddatgan unrhyw gysylltiadau neu fuddiannau personol a all fod ganddynt gyda phwrcaswyr neu ddarparwyr ac/neu os ydynt yn cymryd rhan mewn unrhyw benderfyniadau contract neu bwrcasu ar ran y Cyngor, gan gynnwys ysgolion.

3 Dylai unrhyw un sy'n bresennol mewn cyfarfod y corff llywodraethol ddatgan buddiant busnes boed hwnnw'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Mae hyn yn berthnasol i unrhyw gontract, contract arfaethedig neu unrhyw fater arall sydd o dan sylw.
Mae'n rhaid i'r unigolyn ddatgelu'r ffaith cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol mewn cyfarfod ac ni ddylai gymryd rhan mewn ystyriaethau na thrafodaethau ynghylch y contract neu'r mater sydd o dan sylw. Mae'n rhaid i'r unigolyn ymneilltuo o'r cyfarfod neu'r drafodaeth oni bai fod y corff llywodraethol yn caniatáu fel arall. At hynny, ni chaiff yr unigolyn hwnnw bleidleisio ar unrhyw gwestiwn sy'n ymwneud â'r contract neu'r mater.

**Buddiannau Busnes**

4 Nid oes unrhyw ddiffiniad cynhwysfawr ar gyfer buddiant busnes. Ymhob achos, rhaid gosod ystyr naturiol y geiriau yng nghyd-destun y contract neu'r mater arall sydd o dan sylw.

**Buddiannau Busnes Uniongyrchol**

5 Dyma rai enghreifftiau o fuddiant busnes uniongyrchol:

- unrhyw daliad cyflog, lwfansau neu gostau eraill i aelod staff o gyllideb yr ysgol.
- unrhyw benodiad lle mae llywodraethwr yn ymgeisydd
- unrhyw lywodraethwr neu aelod staff sy'n rhedeg ei fusnes ei hunan ac a gafodd ei dalu neu a all gael ei dalu am wasanaethau a dderbyniwyd o gyllideb yr ysgol neu o unrhyw gronfeydd ariannol eraill yr ysgol
- tir sy'n eiddo'r llywodraethwr neu aelod o staff y gall ei werth gael ei effeithio gan gynigion ynghylch tir neu adeiladau'r ysgol.

**Buddiannau Busnes Anuniongyrchol**

6 Gellir trin nifer o faterion yn fuddiant busnes anuniongyrchol. Dyma rai enghreifftiau:

- llywodraethwr neu aelod staff sy'n berchen cyfranddaliadau neu'n aelod o gwmni neu o gorff llywodraethol sydd â buddiant busnes uniongyrchol
- llywodraethwr neu aelod staff sy'n bartner busnes unrhyw unigolyn neu gwmni sydd â buddiant busnes uniongyrchol
- llywodraethwr neu aelod staff sy'n cael ei gyflogi gan unigolyn neu gan gwmni sydd â buddiant busnes uniongyrchol

- llywodraethwr neu aelod staff sy’n briod â neu’n cydfyw â rhywun sydd â buddiant yn y contract neu’r mater dan sylw, gan gynnwys penodiad i staff yr ysgol

- y contract neu’r mater yn ymwneud â phenodiad yn yr ysgol a all olygu creu swydd wag y dichon i lywodraethwr neu aelod staff fod yn ymgeisydd amdani

**Buddiannau nad ydynt yn Fusnes**

7 Mae rhai materion nad ydynt yn cael eu hystyried yn fuddiant busnes. Dyma rai enghreifftiau:

- bod yn Gynghorydd ar awdurdod lleol;

- bod yn drethdalwr neu’n dalwr Treth y Cyngor yn ardal yr ysgol;

- aelodau o staff yr ysgol sy’n meddu ar fuddiant nad yw’n fwy na buddiant y staff yn gyffredinol yn y mater;

- yn meddu ar fuddiannau heb fod yn rhai busnes;

- yn meddu ar fuddiant sydd mor bell neu mor ddibwys fel na ellir yn rhesymol ei ystyried yn debygol o ddylanwadu ar lywodraethwr neu aelod staff

**Dyletswydd i Ddatgan**

8 Mae Llywodraethwyr, penaethiaid ysgolion, ac aelodau staff yn rhwym i Reoliadau Ariannol ac o’r herwydd mae’n rhaid iddynt ddatgan yn y Gofrestr unrhyw fuddiant busnes sydd ganddynt o dan eu henwau eu hunain mewn unrhyw gontract sy’n ymwneud â’r Ysgol. Mae’n rhaid i’r datganiad fod yn ysgrifenedig a rhaid ei gofrestru yn y Gofrestr.

9 Yn ychwanegol at unrhyw ddatganiad ysgrifenedig yn y Gofrestr, mae’n rhaid i unrhyw lywodraethwr, neu unrhyw unigolyn sy’n mynychu cyfarfod y corff llywodraethol neu un o’i bwyllgorau ddatgan ei fuddiant busnes ar lafar ac yna ni chaiff gymryd rhan mewn unrhyw drafodaeth bellach na phenderfyniad pellach ar y mater.

10. Cyfrifoldeb y llywodraethwr, y pennaeth, neu aelod staff ei hunan yw cadw’r rheolau hyn.

**Y Gofrestr**

11 Rhaid i bob corff llywodraethol drefnu i Gofrestr gael ei chadw yn yr ysgol. Awgrymir y dylai’r Pennaeth gadw’r Gofrestr hon mewn plygell tudalennau rhydd.

12 Mae’n rhaid i’r Gofrestr fod yn agored i’w harchwilio’n gyhoeddus, yn ddi-dâl, yn ystod oriau rhesymol swyddfa ysgol.

13 Dylai’r Corff Llywodraethol wneud trefniadau i gadw’r Gofrestr yn gyfredol. Awgrymir y dylid gwneud hyn bob blwyddyn o leiaf.